# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 4

GWEITHREDIAETHAU, AELODAU, SWYDDOGION A PHWYLLGORAU AWDURDODAU LLEOL

*Trosolwg o'r Rhan*

### 53 Trosolwg

Mae'r Rhan hon yn gwneud darpariaeth—

(a) sy'n ei gwneud yn ofynnol i brif gyngor benodi prif weithredwr (yn hytrach na dynodi pennaeth gwasanaeth taledig), y bydd ei swyddogaethau yn cynnwys dyletswyddau a osodir o dan y Rhan hon;

(b) ynglŷn â chydnabyddiaeth ariannol i brif weithredwyr;

(c) ar gyfer penodi cynorthwywyr gweithrediaethau prif gynghorau;

(d) ynglŷn â rhannu swydd mewn swyddi penodol o fewn prif gynghorau;

(e) ar gyfer dyroddi canllawiau, gan gynnwys i feiri etholedig ac arweinyddion gweithrediaeth, ar gydraddoldeb ac amrywiaeth;

(f) ynglŷn â hawlogaeth aelodau o awdurdodau lleol i gael gwahanol fathau o absenoldeb teuluol;

(g) sy'n ei gwneud yn ofynnol i arweinyddion grwpiau gwleidyddol gymryd camau i hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau o'u grwpiau, a chydweithredu â phwyllgorau safonau;

(h) sy'n ei gwneud yn ofynnol i bwyllgorau safonau lunio adroddiadau blynyddol ar y modd y maent yn arfer eu swyddogaethau;

(i) sy'n diwygio Deddf 2000 a Deddfau eraill er mwyn gwneud darpariaeth ynglŷn ag ymchwiliadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i ymddygiad aelodau llywodraeth leol;

(j) ynglŷn â darparu gwybodaeth benodol i bwyllgorau trosolwg a chraffu;

(k) sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol benodi cyd-bwyllgorau trosolwg a chraffu;

(l) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned wneud cynlluniau hyfforddi.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 53 mewn grym ar 20.3.2021, gweler **a. 175(3)(h)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 20/03/2021.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Croes Bennawd: Trosolwg o'r Rhan.